# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol

Mae camu i'r flwyddyn ariannol newydd yn y gwanwyn wastad yn creu teimlad o gyffro a dechrau newydd. Mae'r ŵyn yn prancio y caeau, a ninnau'n cael difyrrwch o'n taenlen Cynllunio Prosiectau wrth benderfynu ar fanylion y prosiectau sydd ar y gweill yn ystod y flwyddyn.

Ond eleni, mae llawenydd y gwanwyn wedi pylu rywfaint wrth i'r cawodydd glaw a'r toriadau ariannol lanio. Mae'r toriad a gawson ni o 2.5% wedi cyfyngu ar ein twf a'n cyffro wrth ddechrau prosiectau newydd, ond mae wedi ein galluogi i barhau'n sefydlog a pharhau i gael cryn effaith gyda'n rhaglen graidd.

Serch hynny, o'n cwmpas, mae sefydliadau celfyddydol, sefydliadau'r llywodraeth, a sefydliadau'r trydydd sector yn gorfod dygymod â thoriadau mwy o faint drwy ailstrwythuro a dileu swyddi, a bydd hyn yn cyfyngu ar ein gallu i weithio mewn partneriaeth. Rydyn ni'n pryderu am ddyfodol ein sector yn y tymor hir wrth i'r llywodraeth wneud penderfyniadau tymor byr, ond rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i sicrhau bod Llenyddiaeth Cymru'n parhau i gael effaith.

Oherwydd hyn, rydyn ni wedi bod yn falch dros ben o weld cyfleoedd newydd i greu partneriaethau a chodi arian yn dod o wahanol lefydd. Er enghraifft, mae ein digwyddiad yn y Senedd ym mis Mawrth bellach wedi arwain yn uniongyrchol at brosiect mawr gyda Sefydliadau Diwylliant Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd yn 2025, a hwnnw'n edrych ar y berthynas rhwng ieithoedd lleiafrifol a'r argyfwng hinsawdd. Bydd y rhaglen hon yn hynod o fuddiol i awduron Cymru, ond bydd hefyd yn ein helpu ni a Chymru i gadarnhau ein lle yn y byd.

Ar nodyn hapusach arall, roedden ni'n awyddus iawn i dynnu sylw at yr awduron a fu'n rhan o gynllun Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli y gwanwyn hwn. Er bod y rhaglen yn gyfle datblygu ardderchog i awduron sydd ar fin cael gyrfaoedd llwyddiannus, cynaliadwy, roedd hi'n wych eleni gweld cynifer o awduron yn cymryd rhan a oedd wedi bod yn rhan o raglenni datblygu blaenorol Llenyddiaeth Cymru, ac yn enwedig awduron o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli. Wrth ddeall o lygad y ffynnon bwysigrwydd y rhaglenni hyn i'w gyrfaoedd, mae wedi gwir ddangos effaith ein gwaith yn y tymor hir, ac wedi ein hatgoffa ein bod ar y trywydd iawn. Ymlaen!

Leusa Llewelyn, Cyfarwyddwr Artistig
Claire Furlong, Cyfarwyddwr Gweithredol



Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau

- Fis Ebrill, dathlodd Siôn Tomos ddiwedd ei brosiect Llen mewn Lle yn Rhondda Cynon Taf. Rhannodd y gymuned gerddi, cyn agor llwybr cerdded sy'n cyflwyno barddoniaeth yn y goedwig gyfagos.
- Cafodd awduron Cynrychioli Cymru gwrdd am y tro cyntaf yn Nhŷ Newydd ar gyfer dosbarth meistr ffuglen gyda Rachel Trezise a Jacob Ross. Cynhaliwyd y digwyddiad cyhoeddus cyntaf o dan faner Cynrychioli Cymru yn Chwarter 1: Dechrau Ysgrifennu gyda Julia Forster.
- Mwynhaodd Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli wythnos lawn o sgyrsiau a gweithgareddau. Clywson nhw gan awduron fel Colm Tóibín a Jackie Kay a chael sgyrsiau gan unigolion o'r diwydiant fel Cath Summerhayes, asiant Curtis Brown.
- Dechreuodd Casia Wiliam weithgarwch Llên mewn Lle ym Methesda. Cynhaliodd hi ddigwyddiad meic agored yn dathlu lleisiau benywaidd ym myd natur. Ysbrydolodd y grŵp gerdd a rannodd Casia ar BBC Radio Cymru, fel rhan o'i chyfnod fel Bardd y Mis.
- Cyhoeddodd Bardd Plant Cymru gasgliad o farddoniaeth ar gyfer Celf ar y Cyd, cynhaliodd ddiwrnod o weithgareddau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac ymddangosodd ar S4C yn ystod wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl.
- Cafodd beirdd prosiect Pencerdd gyfle i fwynhau gweithdai ysgrifennu gyda'r beirdd Aneirin Karadog a Rhys Iorwerth.
- Dechreuodd Helen McSherry, hwylusydd Sgwennu'n Well, ei chyfres o wyth gweithdy, gan ganolbwyntio ar y Pum Ffordd at Les mewn partneriaeth â Mind Caerdydd.
- Bu'n chwarter prysur yn Nhŷ Newydd, lle cynhaliwyd encilion ioga ac ysgrifennu a chwrs Cymraeg strategol gyda Megan Angharad Hunter a Manon Steffan Ros. Aeth Tŷ Newydd hefyd ar daith, gan gynnal wythnos ar Ynys Enlli, tra bu'r drysau gwyrddlas yn gefnlen hyfryd i



Ar Ddiwrnod y Ddaear 2024, rhannwyd Natur a Ni: ffilm rymus yn cyflwyno cerddi a chyfweliadau am greadigrwydd a'r amgylchedd.




Lansiwyd rhaglen Cynrychioli Cymru 2024/25 drwy gyhoeddi enwau'r 14 awdur



Cyhoeddwyd enwau deg o Awduron wrth eu Gwaith, a fyddai'n dechrau mwynhau deg diwrnod o gyfleoedd creadigol yng Ngŵyl y Gelli'n fuan wedyn.




Ar ôl misoedd lawer o ddarllen, cyhoeddwyd rhestr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2024



Y Children's Laureate Wales, Alex Wharton, yn cychwyn ar daith gerdded 40 milltir dros 5 diwrnod, fel rhan o brosiect sy'n cael ei gefnogi gan y Darkley Trust.




Llenyddiaeth Cymru yn cryfhau ei Fwrdd Rheoli drwy benodi pedwar Ymddiriedolwr newydd

## Gweithrediadau

- Cawson ni lwyddiant wrth recriwtio Cydlynydd Creadigol newydd. Ymunodd Nicola Edwards â'r tîm ym mis Mehefin, ac mae hi eisoes wedi dechrau gweithio'n galed ar brosiectau Bardd Plant Cymru, Children's Laureate Wales, a rhaglen newydd y sgwad sgwennu.
- Cyflwynwyd data'r gynulleidfa ar gyfer ail hanner 2023-24 i arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru, gan roi manylion ein gweithgareddau a maint y gynulleidfa o dan holl brosiectau Llenyddiaeth Cymru.
- Helpodd yr holl staff gydag ymgyrch lanhau ddigidol ym mis Ebrill, gan dacluso'r ffeiliau yn SharePoint a dileu unrhyw ddogfennau diangen neu gopïau dyblyg. Dylai hyn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i ddata a lleihau allyriadau sy'n deillio o storio ar y cwmwl (drwy oeri/defnyddio trydan).
- Mae ein Hadroddiad Blynyddol a'n Datganiadau Ariannol ar gyfer 2023-24 wedi cael eu drafftio, ac yn barod i gael eu hadolygu a'u harchwilio cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau mewn da bryd.
- Cymerodd yr holl reolwyr prosiectau ran mewn sesiynau diogelu ar gyfer eu prosiectau. Roedd hyn yn cynnwys sgyrsiau â swyddog diogelu Llenyddiaeth Cymru i ganfod unrhyw ystyriaethau diogelu sy'n berthnasol i brosiectau, ac unrhyw gamau i leihau'r risg a chyflawni ein dyletswydd gofal.
- Gan ddilyn ein Polisi Caffael, mae'r contractau cyfleustodau wedi cael eu hadnewyddu am y ddwy flynedd nesaf.
- Cafodd yr ymddiriedolwyr gyfarfod wyneb yn wyneb ym mis Mai yn swyddfeydd Eversheds Sutherland yng Nghaerdydd. Croesawyd tri ymddiriedolwyr newydd i'r bwrdd yn y cyfarfod hwn: Charlotte Williams, Margiad Eckstein, a Nasir Adam.
- Parhaodd y staff i roi cyflwyniadau am effaith prosiectau yn ystod cyfarfodydd y staff. Yn y chwarter hwn cafwyd 5 cyflwyniad am brosiectau, gan gynnwys Sgwennu'n Well ac Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad. Rhoddwyd cyflwyniadau ychwanegol i'r Bwrdd Rheoli am Wobr Llyfr y Flwyddyn.
- Defnyddiodd y staff system newydd i dracio Targedau Gweithredol ac Allweddol 2024-25 am y tro cyntaf yn ystod y chwarter hwn. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i fonitro ein cynnydd o dan y targedau, gan gynnwys y rheini rydyn ni'n cyflwyno adroddiadau amdanyn nhw i Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i greu'r

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Ein lle yn y Sector

Parhaodd y staff i fod yn hael â'u hamser a'u harbenigedd wrth helpu gyda gwaith datblygu yn y chwarter hwn. Ymhlith rhai enghreifftiau diddorol ac amrywiol mae:

- Partneriaeth gyda chyhoeddwyr Cymraeg fel rhan o'n cwrs ysgrifennu i blant a phobl ifanc yn Nhŷ Newydd. Gwahoddwyd awduron a oedd wedi cael contractau gan gyhoeddwyr neu a oedd yn cael trafodaethau â chyhoeddwyr i ymuno â chwrs yn rhad ac am ddim gyda'r tiwtoriaid Manon Steffan Ros and Megan Hunter. Treuliodd 16 o awduron Cymraeg y penwythnos yn Nhŷ Newydd, a byddan nhw'n cael sesiynau dilynol i'w hannog nhw i gyhoeddi.
- Helpu amgueddfeydd Sir Gâr i ddatblygu Tŷ Cychod Dylan Thomas yn Lacharn, gan eu cynghori nhw sut i ymwneud ag awduron fel rhan o'r broses, a'u cynghori am ffioedd addas. Yn y tymor hir, y bwriad yw sicrhau bod y Tŷ Cychod yn cael ei ddefnyddio fel gofod gweithgar gan awduron o Gymru, a'i fod yn rhoi ffenestr i ymwelwyr i dirlun llenyddol presennol Cymru, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar hen greiriau Dylan Thomas.
- Helpu gwasg menywod Honno drwy roi cyngor am ddiogelu awduron o Asia ac Affrica sydd wedi'u dadleoli.
- Rhoi gofod yn Nhŷ Newydd i Brifysgol Bangor a grwpiau o gynllun Ar y Dibyn sy'n gweithio gydag artistiaid sy'n byw â chaethiwed.
- Cadeirio cyfarfod o gyrff y sector, sef Cyngor Llyfrau Cymru, Mudiad Meithrin a Chyngor Gwynedd, er mwyn trafod cynrychiolaeth mewn llyfrau i gylchoedd meithrin.

# Uchafbwynt wrth gyflawni nod: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

Dathlu amrywiaeth ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru yn y byd, drwy greu llwyfan i lenyddiaeth sy'n fwy perthnasol ac yn agored i gynulleidfa ehangach.

Yn y misoedd diwethaf, mae awduron o Gymru wedi ffynnu ar lwyfannau cenedlaethol a byd-eang. Mae eu doniau a'u hymrwymiad i'w crefft yn ysbrydoledig, ac rydyn ni'n ddiolchgar ein bod ni wedi cael gweithio gyda nhw a'u cefnogi.

## Ar y carped coch

Ym mis Mai, ymddangosodd cerdd Alex Wharton, 'The Gardener' ar garped coch y Met Gala diolch i ddillad Burberry arbennig Lewis Hamilton. A honno wedi'i datblygu fel rhan o brosiect Ymatebion Creadigol, mewn partneriaeth â Cadw, cerdd yw 'The Gardener' am John Ystumllyn, garddwr o'r ddeunawfed ganrif. Dyma'r dyn Du cyntaf yn y gogledd y mae cofnod da o'i fywyd ar gael. Wrth ymateb, meddai Alex Wharton:

> *Wrth i straeon ddod o hyd i ni, mae'r cysylltiad yn un ysbrydol. Roeddwn i wrth fy modd o glywed bod fy ngherdd wedi taro tant ac wedi ysbrydoli'r tîm dylunio a Lewis Hamilton yn bersonol. Anrhydedd a hanner. Diolch yn fawr.*

## Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Ar ôl mynd ar gwrs Barddoniaeth ac Ysgrifennu Caneuon yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, pendronodd Jude Rogers, y beirniad celfyddydol, a allai hi ddechrau cyfansoddi caneuon – a hynny ar ôl ysgrifennu amdanyn nhw am ugain mlynedd.

Mae Jude yn disgrifio'r cwrs fel un a greodd "gymuned greadigol glos". Ym mis Mai, rhannodd Jude ei phrofiad ar dudalen flaen y Guardian. Gallwch chi wrando ar gân Jude, (The Rather Rough-and-Ready Ballad of) Georgina, ar wefan y Guardian.



Llun: Joel Goodman/The Guardian

## Gwobrwyon

Yn y chwarter hwn mae dau awdur wedi ennill gwobrau cenedlaethol. Roedd Joshua Jones, a fu ar ein Cwrs i Egin Awduron yn 2023, ar y rhestr fer ryngwladol ar gyfer Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe 2024, a hynny am ei gyfrol Local Fires (Parthian Books, 2023). Fis Mai, enillodd Megan Angharad Hunter, a fu'n rhan o gynllun Cynrychioli Cymru, wobr uwchradd Tir na n-Og am Astronot yn yr Atig (Y Lolfa, 2023). Mae ennill gwobrwyon cenedlaethol yn helpu i ddatblygu llwyddiant ac amlygrwydd awduron. Er enghraifft, yn ystod y chwarter hwn, ers ennill Gwobr Awduron Dosbarth Gweithiol Writes and Artists yn 2023, mae Jon Doyle, a fu'n rhan o gynllun Cynrychioli Cymru, wedi llwyddo i gael yr asiant Aitken Alexander i'w gynrychioli. Ar ôl ennill gwobr aur y Creative Future Writers' Award yn 2023 am waith ffeithiol-greadigol, mae Bethany Handley (sydd hefyd wedi bod yn rhan o gynllun Cynrychioli Cymru a'r cwrs i Egin Awduron) ar hyn o bryd yn golygu'r casgliad dwyieithog cyntaf o waith awduron Byddar ac Anabl o Gymru. Mae hi'n llysgennad i ymgyrch Access for All Country Living, mae hi wedi llwyddo i gael asiant i'w chynrychioli, a bydd hi'n cyhoeddi ei chasgliad cyntaf o farddoniaeth gyda Seren Books yn 2025.

Mae Bardd Cenedlaethol Cymru, Hanan Issa, yn parhau i roi llwyfan i Gymru ac ysgrifennu o Gymru ar lefel genedlaethol. Dyma rai uchafbwyntiau o chwarter 1:

- Mae Hanan yn ymddangos fel un o'r 20 o'r unigolion pwysig sydd wedi dylanwadu ar y Gymru fodern, yn ôl adnodd newydd a grëwyd gan Peniarth gyda chymorth Llywodraeth Cymru.
- Ym mis Ebrill, ymddangosodd Hanan ar glawr cylchgrawn Barn, gan drafod ei gwaith fel Bardd Cenedlaethol Cymru a grym barddoniaeth.
- Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi gan y London Review Bookshop yn eu podlediad Wales in Words. Cafodd Hanan ei chyfweld hefyd ar raglen Poetry Please BBC Radio 4 gyda Roger McGough, ac aeth y rhaglen hon yn ei blaen i fod yn ddewis yr wythnos gan Julie Hesmondhalgh.
- Fis Mai, cyhoeddwyd blodeugerdd Hanan, 'And I Hear Dragons' (Firefly), yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r flodeugerdd yn rhoi llwyfan i 12 o awduron sydd wedi cymryd rhan yn un o raglenni datblygu awduron Llenyddiaeth Cymru. Cyflwynwyd darlleniad yng Ngŵyl y Gelli.
- Cafodd Hanan ei chyfweld ar Sky News ym mis Mehefin: 'A poetic look at politics in Wales', a pherfformiodd hi hefyd ei cherdd, 'The Unsung', a gomisiynwyd i nodi pen-blwydd y GIG yn 75 oed.
- Hefyd ym mis Mehefin, darllenodd Hanan yng Ngwobrau Cenedl Noddfa, a drefnwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru.

# Cynaladwyedd: Uchafbwyntiau a diweddariadau

## Cynnydd chwarter 1

Rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd wrth ddefnyddio cynhyrchion mwy cynaliadwy pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl wrth drefnu gwasanaethau arlwyo a lletygarwch yn Nhŷ Newydd. Yn ystod y chwarter hwn, rydyn ni wedi parhau i leihau ein defnydd o blastigion untro drwy roi cynwysyddion y gellir eu hail-lenwi yn Nant ar gyfer siampŵ, cyflyrwyr gwallt, sebon cawod, hylif golchi dwylo a hylif golchi llestri. Bydd hyn yn helpu i leihau'r defnydd o blastigion untro sy'n deillio o brynu'r cynhyrchion hyn yn unigol bob tro. Rydyn ni'n gwneud yr un fath wrth arlwyo pan fydd hynny'n bosibl, er enghraifft drwy brynu mewn swmp ac ail-lenwi'r cynwysyddion sy'n dal coffi, te, halen a phupur. Rydyn ni'n parhau i edrych ar yr opsiynau ar gyfer defnyddio cynhyrchion glanhau mwy cynaliadwy pan fydd hyn yn cydymffurfio â safonau'r arolygwyr hylendid bwyd. Er enghraifft, rydyn ni'n gobeithio dechrau defnyddio cynhyrchion glanhau Smol pan fydd hynny'n bosibl yn y misoedd nesaf.

Mae'r gwaith wedi dechrau i fesur allyriadau carbon Llenyddiaeth Cymru. Mae amcangyfrifon bras wedi dechrau cael eu creu ar gyfer elfennau fel teithio staff (3,409kg o $CO_2e$) neu argraffu (84kg o $CO_2$) yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. Byddwn ni'n parhau i greu amcangyfrifon er mwyn cymharu allyriadau drwy'r sefydliad a chanfod blaenoriaethau ar gyfer lleihau ein heffaith amgylcheddol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyfuno â gwaith i ailddrafftio'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd erbyn i ni wneud y gwaith blynyddol o ddiweddaru ein polisïau ar ddiwedd Chwarter 3.

## Chwarter 1 Targedau a fethwyd

Yn ystod y chwarter hwn, roedden ni'n gallu asesu ein cynnydd o dan dargedau am y flwyddyn a fesurwyd drwy arolwg cynaliadwyedd y staff a'n cofnodion ariannol. Yn anffodus, eleni parhaodd y duedd lle gwelwyd cynnydd yn yr allyriadau teithio, er gwaethaf yr ymdrechion i gadw at y lefelau teithio is a welwyd yn ystod y pandemig.

Cynyddodd costau milltiroedd y staff i £5,789.48 am y flwyddyn (2023-24). Ar gyfradd o 45c y filltir, amcangyfrifir bod hyn yn gyfystyr â 12,866 o filltiroedd. O'i gymharu â 8,346 o filltiroedd (£3,755.48) yn 2022-23, dyma gynnydd o 54%. Er nad yw'r lefelau wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig (cyfrifwyd 13,578 o filltiroedd yn 2019-2020), rydyn ni wedi methu â chyrraedd ein targed i gadw'r milltiroedd i lefel sydd 40% yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Os bydd y lefelau teithio'n parhau i gynyddu, efallai y byddwn ni'n cyrraedd lefelau uwch na'r rhai a welwyd cyn y cyfnodau clo.

I osgoi hyn, byddwn ni'n newid sut y bydd staff yn hawlio treuliau am filltiroedd, a bydd gofyn iddyn nhw roi cyfiawnhad dros wneud eu teithiau a dros deithio mewn car. Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn annog staff i fod yn ystyriol o'r adegau y gallan nhw osgoi teithio mewn car i gyfarfodydd a digwyddiadau. Os na fydd hyn yn lleihau'r teithiau mewn car, bydd fan lleiaf yn rhoi data am beth sy'n cyfrannu at y milltiroedd ac yn awgrymu datrysiadau posibl ar gyfer lleihau allyriadau teithio.

Mae'r canlyniadau o arolwg cynaliadwyedd y staff yn dangos ein bod hefyd wedi methu â chyrraedd ein targed ar gyfer sicrhau bod 80% o'r teithiau cymudo posibl mewn car yn cael eu hosgoi. Gwnaed 24% o'r teithiau cymudo posibl mewn ceir yn unig, gyda staff yn llwyddo i osgoi'r mwyafrif drwy weithio gartref. Gwnaed 15% o'r teithiau cymudo posibl ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ddulliau teithio llesol. Serch hynny, allyriadau anuniongyrchol yw'r rhain, ac mae'n ymddangos bod y newidiadau mewn arferion cymudo wedi deillio'n bennaf o newidiadau staffio. Byddwn ni'n parhau i gynnig a hysbysebu cynlluniau fel y cynllun Seiclo i'r Gwaith i'r staff, ac yn sicrhau bod oriau gwaith yn gallu bod yn hyblyg i gyd-fynd ag

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwersi i'w Dysgu: Gweithgaredd a Gweithredol

| Gweithgaredd | Gwersi i'w Dysgu: 1 Ebrill – 30 Mehefin 2024 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| Taith gerdded y Children's Laureate Wales | Roedd taith gerdded Alex Wharton ym Mhowys yn llwyddiant, ond gallai fod wedi cynnwys mwy o weithgarwch mewn ysgolion, mwy o ymwneud â chymunedau, a mwy o effaith o ran cysylltiadau cyhoeddus, ac ystyried pa mor aruthrol oedd yr hyn a gyflawnwyd. | Mae angen mwy o gymorth fyth ar ein beirdd cenedlaethol creadigol i reoli prosiectau – ac mae angen goruchwylio eu prosiectau'n fanylach er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyrraedd mwy o gynulleidfaoedd, wyneb yn wyneb a thrwy gysylltiadau cyhoeddus. Mae aelod newydd o staff wedi'i phenodi i weithio ar brosiectau'r ddau fardd plant, ac mae hi ar hyn o bryd yn gweithio'n agos gyda nhw i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer Blwyddyn 2 (Medi 2024 – Awst 2025). |
| Cynrychioli Cymru: dewis grŵp o awduron | Bydd panel annibynnol yn dewis grŵp o 14 o awduron ar gyfer y rhaglen bob blwyddyn. Maen nhw'n cael canllawiau manwl, ond yn y pen draw, ni fydd Llenyddiaeth Cymru yn rhan o'r broses ddethol. Weithiau, mae hyn yn golygu nad yw gwerthoedd a blaenoriaethau Llenyddiaeth Cymru yn flaenoriaethau yn y broses ddethol. | Llenyddiaeth Cymru i ystyried cynnwys y Cyfarwyddwr Artistig neu aelod o staff sydd â phrofiad helaeth o weithio gydag awduron yng Nghymru yn rhan o'r panel dethol yn 2025, er mwyn cyfrannu gwybodaeth a sicrhau bod gwerthoedd Llenyddiaeth Cymru yn cael sylw yn y broses. |
| Canslo archebion yn Nhŷ Newydd | Ar y funud olaf, canslodd cwsmeriaid eu llefydd ar ambell gwrs yn Nhŷ Newydd, a'r rheini'n llawn, gan arwain at golli incwm yn ddiangen. A ninnau'n elusen, mae hyn yn cael effaith bellgyrhaeddol ar Lenyddiaeth Cymru. | Y staff i ymchwilio i well systemau ar gyfer archebu/casglu'r tâl (gan gynnwys systemau awtomataidd) i sicrhau bod arian yn cael ei gasglu'n gynt er mwyn osgoi colli incwm, ac i osgoi sefyllfa lle bydd y rheini sydd ar y rhestrau aros yn colli'r cyfle i ymuno â chyrsiau. |
| Cwrs Enlli | Fel arbrawf, aeth Tŷ Newydd â 10 o awduron dros y Swnt i Ynys Enlli fel rhan o gwrs ysgrifennu creadigol. Mae dogfen wedi'i chreu gyda gwersi posibl i'w dysgu – pethau i'w hailadrodd ar gyrsiau'r dyfodol, a phethau i'w newid. | Rydyn ni am gynnal y cwrs eto yn 2026, gydag ambell newid. Roedd y trefniadau'n gymhleth, ac roedd yn rhaid dod â'r holl fwyd a'r dillad gwely gyda ni. Roedd y cyfan yn llwyddiant – ond mae gwersi i'w dysgu at y tro nesaf. |